

# Cyllidebau Carbon Cymru - Cais am Dystiolaeth

**Derbyniodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2016. Mae'n pennu targed 2050 i leihau allyriadau o leiaf 80% ac mae'n darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer sefydlu dull cyllidebu carbon o weithredu yng Nghymru.**

**Cyn diwedd 2018, dywed y Ddeddf bod rhaid i Weinidogion Cymru bennu rheoliadau ar gyfer targedau allyriadau interim ar gyfer 2020, 2030 a 2040, ynghyd â chyllidebau carbon 5 mlynedd ar gyfer y cyfnodau rhwng 2016 a 2020, a 2021 a 2025.**

**Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor ar Newid yn yr Hinsawdd ddarparu cyngor ar y targedau allyriadau hyn ac mae'n gofyn am dystiolaeth i helpu gyda'r dasg honno.**

Mae'r Pwyllgor yn darparu cyngor mewn dau gam:

- Cam 1: Cyngor ar gyfrifo carbon a dylunio cyllidebau/targedau carbon Cymru. Cyhoeddwyd y cyngor hwn gennym ym mis Mawrth 2017.<sup>1</sup>
- Cam 2: Cyngor ar lefel yr uchelgais sydd yn y targedau a'r cyllidebau a'r sectorau ble ceir cyfleoedd penodol i ddadgarboneiddio (Tachwedd 2017).

Mae'r Cais am Dystiolaeth hwn yn canolbwyntio ar yr ail o'r camau hyn. Bydd yr ymatebion i'r Cais hwn yn helpu fel sail i gyngor y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru, a gyhoeddir ym mis Tachwedd 2017. Mae'r Cais yn cynnwys cwestiynau perthnasol i'r Ddeddf, ynghylch lefelau priodol y targedau a'r cyllidebau carbon a beth ddylid ei ystyried wrth argymhell y rhain.

**Y dyddiad car ar gyfer yr ymatebion yw 11 Medi 2017.**

---

<sup>1</sup> <https://www.theccc.org.uk/publication/advice-on-the-design-of-welsh-carbon-targets-2/>

## a. Gwyddoniaeth yr hinsawdd ac amgylchiadau rhyngwladol

Seilir targed 2050 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) ar gyfer gostyngiad o 80% o leiaf mewn allyriadau ar lwybr byd-eang sy'n cadw amcangyfrifon canolog (h.y. tebygolrwydd o 50%) o gynnydd mewn tymheredd byd-eang yn agos i 2°C. Mae Cytundeb Paris yn cynnwys cyfres o amcanion tymor hir newydd i gyfyngu ar gynhesu, sy'n fwy uchelgeisiol na chytundebau blaenorol y CU. Nod y Cytundeb yw cadw'r cynnydd mewn tymheredd byd-eang ymhell o dan 2°C, gan ymdrechu i'w gyfyngu i 1.5°C. I gyflawni hyn, nod y Cytundeb yw sicrhau cydbwysedd rhwng ffynonellau a sinciau nwyon tŷ gwydr yn ail hanner y ganrif (h.y. allyriadau byd-eang sero net erbyn 2050-2100).

Cyhoeddodd y CCC adroddiad ar y goblygiadau ar gyfer uchelgais hinsawdd y DU ar 13 Hydref 2016.<sup>2</sup> Daeth hwn i'r casgliad nad yw'n briodol pennu targedau allyriadau newydd ar gyfer ledled y DU nawr, ond roedd yn cytuno â'r bwriad i bennu targed newydd ar gyfer y DU yn y dyfodol, yn adlewyrchu'r amcan byd-eang o gyrraedd allyriadau sero net. I fod yn gredadwy, rhaid i darged o'r fath fod yn seiliedig ar dystiolaeth, gyda pholisïau cadarn yn cyd-fynd ag ef i gyflawni targedau tymor agosach presennol a chadw'r llwybrau sy'n mynd y tu hwnt i ostyngiad o 80% erbyn 2050 ar agor, a strategaeth i ddatblygu cael gwared ar nwyon tŷ gwydr. Mae'r cylch pum mlynedd o addewidion ac adolygiadau sydd wedi'u creu gan Gytundeb Paris yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ystyried uchelgais cynyddol.

Dywed Deddf yr Amgylchedd (Cymru) bod rhaid pennu targedau interim ar gyfer 2020, 2030 a 2040, ar y llwybr at ostyngiad o 80% o leiaf erbyn 2050. Dywed hefyd bod rhaid pennu cyllidebau carbon fel uchafswm yr allyriadau a gynhyrchir yng Nghymru yn ystod cyfnod o 5 mlynedd (2016-2020 a 2021-2025 i ddechrau).

Er bod rhan sylweddol o allyriadau Cymru, ar draws y sectorau diwydiant a phŵer, yn dod o dan System Masnachu Allyriadau'r UE, argymhellodd y Pwyllgor y dylai targedau allyriadau Cymru fod ar sail allyriadau gwirioneddol Cymru (yn hytrach na'r sail 'net' a ddefnyddir ar gyfer cyllidebau carbon y DU). [Derbyniwyd] yr argymhelliad hwnnw ar [5] Gorffennaf 2017.

Felly ni fydd y DU yn gadael yr UE yn effeithio ar gyfrif allyriadau o dan dargedau Cymru. Fodd bynnag, ceir nifer o feysydd polisi a fyddai'n cael eu heffeithio. Cyhoeddodd y Pwyllgor Nodyn Briffio ym mis Hydref 2016,<sup>3</sup> yn pennu sut gellid effeithio ar feysydd polisi.

*Cwestiwn 1: Ydi Cytundeb Paris yn golygu y dylai targedau allyriadau Cymru gadw gostyngiad dyfnach mewn allyriadau nag 80% erbyn 2050 ar agor? Oes goblygiadau ar gyfer targedau tymor agosach?*

ATEB:

*Cwestiwn 2: Ydych chi'n meddwl bod gadael yr UE yn cael effaith ar y targedau neu sut gellir eu cyrraedd?*

ATEB:

<sup>2</sup> <https://www.theccc.org.uk/publication/uk-action-following-paris/>

<sup>3</sup> <https://www.theccc.org.uk/publication/meeting-carbon-budgets-implications-of-brexit-for-uk-climate-policy/>

### a. **Y llwybr at 2050**

Mae cyflawni gostyngiad allyriadau o 80% o leiaf erbyn 2050 ar lefelau 1990 (o leiaf 75% ar lefelau 2015) yn gofyn am gynnal gostyngiadau mewn allyriadau yn ystod y degawdau sydd i ddod. Mewn sawl sector, bydd y pontio angenrheidiol yn gofyn am weithredu polisi yn ystod y cyfnod llawn hyd at 2050 (a thu hwnt i hynny mewn rhai achosion).

Mae angen gweithredu yn ystod rhan gyntaf y cyfnod (e.e. hyd at 2030) nid yn unig er mwyn lleihau allyriadau yn y tymor agosach ond hefyd i baratoi ar gyfer y gostyngiadau dyfnach yn nes ymlaen (e.e. drwy ddatblygu marchnadoedd ar gyfer cerbydau trydan a gwresogi carbon isel).

Bydd gan lwybrau allyriadau sy'n cyrraedd targed 2050 drwy gyfrwng lefel is o allyriadau yn ystod y cyfnod yn y canol (e.e. yn 2030) allyriadau cronol is, ac felly llai o effaith ar yr hinsawdd.

*Cwestiwn 3: Ym maes (meysydd) eich arbenigedd, beth yw'r cyfleoedd a'r heriau o ran lleihau allyriadau Cymru yn y tymor agosach (e.e. hyd at 2030)?*

ATEB:

*Cwestiwn 4: Beth sydd ei angen erbyn 2030 i baratoi ar gyfer targed 2050 ar gyfer lleihau allyriadau 80% o leiaf ar lefelau 1990, gan gydnabod y bydd angen lleihau allyriadau'n agos i sero mewn rhai ardaloedd ar gyfer hyn? Oes unrhyw effaith o'r angen am fynd y tu hwnt i 80%, naill ai yn 2050 neu wedi hynny?*

ATEB:

*Cwestiwn 5: Beth yw rôl unigol Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus ehangach, byd busnes, y trydydd sector ac ymddygiad unigolion neu deuluoedd o ran cyflawni gostyngiadau mewn allyriadau rhwng nawr a 2030? Ac, ar wahân, rhwng 2030 a 2050?*

ATEB:

### b. **Targedau allyriadau a gweithredu**

Gwerth targedau allyriadau yw sbarduno gweithredu i leihau allyriadau. Er bod gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb yn y pen draw am gyrraedd y targedau, mae rôl bosib i amrywiaeth eang o gyfraniadau tuag at eu cyrraedd.

Mae'n bwysig wrth argymhell lefel targedau Cymru bod y Pwyllgor yn rhoi ystyriaeth briodol i'r amgylchiadau yng Nghymru sy'n effeithio ar raddfa a natur y gostyngiadau posib mewn allyriadau.

Un ffordd y mae amgylchiadau Cymru'n wahanol i'r DU yn gyffredinol yw bod safleoedd unigol yn cyfrannu cyfrannau sylweddol fwy o allyriadau cyffredinol Cymru. Yn 2015 (y flwyddyn ddiweddaraf sydd â data llawn ar gael ar ei chyfer), roedd allyriadau safle Dur

Tata ym Mhort Talbot yn 17% o gyfanswm allyriadau Cymru, gydag allyriadau gwaith pŵer tân glo Aberthaw yn 15% o'r gyfanswm.

Felly, yn gyffredinol, gallai allyriadau Cymru gael eu heffeithio'n sylweddol gan ddatblygiadau ar y safleoedd hynny. Yn benodol, gan gofio am ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddod â chynhyrchu di-dor gyda tân glo i ben erbyn 2025<sup>4</sup> (blwyddyn derfynol ail gyllideb carbon Cymru), gallai ansicrwydd ynghylch amseriad y gostyngiad mewn allyriadau o Aberthaw gael effaith sylweddol ar lefel y gostyngiadau mewn allyriadau sydd eu hangen mewn rhannau eraill o economi Cymru er mwyn cyflawni cyllidebau carbon.

*Cwestiwn 6: Fel busnes, fel Corff Sector Cyhoeddus, neu fel dinesydd, sut mae targedau allyriadau'n effeithio ar eich cynlluniau a'ch penderfyniadau?*

ATEB:

*Cwestiwn 7: Yn eich maes (meysydd) arbenigedd, pa amgylchiadau penodol sydd raid eu hystyried wrth bennu targedau a chyllidebau ar gyfer Cymru a sut gellid adlewyrchu'r rhain yn y targedau?*

ATEB:

*Cwestiwn 8: Mae'r sectorau pŵer a diwydiant yng Nghymru'n cael eu rheoli gan nifer bach o safleoedd allyrru mawr. Beth yw'r heriau a'r cyfleoedd allweddol yng nghyswllt hyn o ran pennu lefelau cyllidebau carbon a sut dylai'r broses o'u pennu adlewyrchu'r rhain?*

ATEB:

#### a. **Ystyriaethau ehangach**

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cynnwys gofyniad i'r targedau a'r cyllidebau carbon gael eu pennu gan ystyried y canlynol:

- yr adroddiad diweddaraf o dan adran 8 ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol mewn perthynas â Chymru,<sup>5</sup>
- yr adroddiad diweddaraf ar Dueddiadau'r Dyfodol o dan adran 11 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (anaw 2),<sup>6</sup>
- yr adroddiad diweddaraf (os o gwbl) o dan adran 23 y Ddeddf honno (adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol),<sup>7</sup>

<sup>4</sup> <https://www.gov.uk/government/news/government-announces-plans-to-close-coal-power-stations-by-2025>

<sup>5</sup> Mae'r adroddiad diweddaraf ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ar gael yn <https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/the-state-of-natural-resources-report-assessment-of-the-sustainable-management-of-natural-resources/?lang=en>

<sup>6</sup> Mae'r adroddiad diweddaraf ar Dueddiadau'r Dyfodol ar gael yn <http://gov.wales/docs/statistics/2017/170505-future-trends-report-2017-en.pdf>

<sup>7</sup> Nid oes adroddiad ar Genedlaethau'r Dyfodol wedi bod hyd yma.

**Cwestiwn 9: Pa dystiolaeth ddylai'r Pwyllgor ei hystyried wrth asesu'r effeithiau ar reolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol, fel yr aseswyd yn yr adroddiad ar sefyllfa adnoddau naturiol?**

ATEB:

**Cwestiwn 10: Pa dystiolaeth ynghylch tueddiadau'r dyfodol fel y nodir ac y dadansoddir yn yr adroddiad tueddiadau'r dyfodol ddylai'r Pwyllgor ei hystyried wrth asesu effeithiau'r targedau?**

ATEB: